

YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

# FFRINDIAU'R BYD SESIWN 1

# Beth all Crefydd ddysgu i ni am y Greadigaeth?

**Ffocws y dysgu (Gwella Adran 50)**

- I ddatblygu cyfleoedd i'r dysgwyr wneud cysylltiadau rhwng gwerthoedd yr ysgol â dysgeidiaeth y Beibl.
- I ddatblygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol,moesol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu nodweddu gan werthoedd Cristnogol amlwg.

**YMGYSYLLTU**

I gychwyn ein prosiect rydym am feddwl am straeon Y Creu o wahanol grefyddau a beth maent yn gallu ei ddysgu i ni.

**Rhyfeddod y Creu.**

Defnyddiwch stori Wally y morfarch o Ddinbych-y-pysgod fel man cychwyn i drafod rhyfeddodau creadigaeth Duw. Neu unrhyw esiampl arall fel y creuadur lleiaf, y goeden dalaf. Dangoswch amrywiaeth o greadigaeth Duw, gan gynnwys gwahanol bobl.
Fe ddiflannodd Wally am wythnos. Pam? Mae bob un ohonom yn rhan o greadigaeth Duw, ond mae'n rhaid i ni ei ddiogelu a'i ddefnyddio gyda pharch gan ofalu am bopeth byw- anifeiliaid, planhigion a phobl eraill.

**Beth mae gwahanol grefyddau yn ein dysgu am y creu?**

Mae straeon gan wahanol grefyddau'r am sut gafodd ein byd ei greu. Yn y Beibl, y Torah a'r Qur'an mae straeon am Dduw yn creu y byd a'r pobl ynddo.
Mae Cristnogion ac Iddewon yn rhannu'r un stori. Yn y Beibl mae stori'r creu yn Genesis, y llyfr cyntaf. Mae'r Torah hefyd yn cychwyn gyda'r r'un stori o Duw yn creu y byd. Mae trefn pendant i'r creu: goleuni, dwr, tir, planhigion, creaduriaid y môr ac adar, anifeiliaid a phobl. Gallwch ddefnyddio gemau neu gardiau lluniau i rhoi trefn i'r stori.(RE Quest)

**Creu yn nelwedd Duw**

Mae Cristnogion ac Iddewon yn credu i ni gael ein creu yn nelwedd Duw. Tydi hyn ddim yn golygu ein bod yn edrych fel Duw ond y gallwn ddatblygu ei rinweddau.
Rydym yn creu perthynas gyda pobl eraill ond hefyd gallwn greu perthynas gyda Duw. Gallwn siarad gyda Duw trwy ein gweddiau, a'i orfoleddu trwy ein caneuon ac ein addoliad. Gallwn ddysgu sut mae Duw eisiau i ni fyw a gweithredu er enghraifft drwy ofalu am greadiadeth Duw. Defnyddiwn ei rinweddau Ef i ddeall beth sydd yn dda neu'n ddrwg. Rydym yn atebol am y ffordd rydym yn defnyddio y pethau a roddwyd i ni- thema goruchwyliaeth. Gallwn glodfori Duw yn yr hyn a wnawn. Rhaid meddwl a gwneud penderfyniadau gall helpu eraill. Gallwn ddatrys problemau. Rydym yn gydwybodol.

**Nodwch rhai penderfyniadau gallwch wneud i helpu eraill yn ein byd.**

Gallwn fod yn greadigol, fel Duw.
Mae popeth sydd angen arnom i fyw yma yng nghreadigaeth Duw.
Planhigion, bwyd, anifeiliaid, ayyb sy'n dod o'r ddaear. Gallwn ddefnyddio ein creadigaeth i ddatrys problemau ac i fod yn gyfrifol- cynorthwyo ein gilydd, defnyddio ein sgiliau i helpu eraill fel yn ystod y pandemig, gofal meddygol.
Dywed Thomas Aquinas "humans are naturally inclined to be good"
Os ydym wedi ein creu yn nelwedd Duw, mae gwerth ac urddas ganddom. Mae'n rhaid i ni werthfawrogi popeth a greuwyd gan Dduw, mae pob rhan o'r greadigaeth yn bwysig.

**Credoau Iddewig**

Mae gofalu am y greadigaeth yn rhoi ymdeimlad o ogoniant Duw-Shekhinah. Profir hyn trwy astudio'r ysgrythyrau, addoli a gweddio.

**Credoau Islamig**

Allah sy'n gyfrifol am greu'r bydysawd ond nid oes cyfeiriad yn y Qur'an i straeon creu fel yn y Beibl a'r Torah.
Gorchmynnodd Allah i bethau ddod i fodolaeth.
Mae trefn i'r creu ond nid o reidrwydd wedi ei gyfyngu gan amser. Mae'n cynnwys creuaduriaid byw, angylion, planedau a glaw i dyfu planhigion. Cred fod Allah wedi creu y byd mewn 6 diwrnod.
Mae Mwslemiaid yn credu bod y byd wedi ei greu i alluogi i bobl fyw a ffynnu. Dysgir khalifah i Fwslemiaid sef goruchwyliaeth. Mae hyn yn ganolog i'w ffydd.
Foundation Phase Video - Charlie and Blue Ask about Allah and Creation - TrueTube
Fe greodd Allah bobl.Fe yrrodd angylion i'r ddaear i gasglu 7 llond llaw o bridd, pob un o wahanol liw. Gyda cymysgedd o'r pridd yma fe greodd Allah y dyn cyntaf, Adda.
Mae Cristnogion, Iddewon a Mwslemiaid i gyd yn credu bod Duw wedi rhoi bywyd i bobl.

**Myfyrio**

Ydych chi'n meddwl ein bod yn gofalu yn dda am byd a greodd Duw?
Beth sydd gan hyn i'w wneud â fi?
Pam fod ots?
Beth yw stiwardiaeth/goruchwyliaeth?
Ai dim ond pethau da greodd Duw?